OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 1821

## Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010

## RHAN 2

Sancsiynau sifil, hysbysiadau ac ymrwymiadau

### Sancsiynau sifil, hysbysiadau ac ymrwymiadau

**3.**—(1) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cosbau ariannol penodedig.

(2) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cosbau ariannol newidiol, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer ac ymrwymiadau trydydd parti.

(3) Mae Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hysbysiadau stop.

(4) Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau gorfodi.

(5) Mae i'r termau hynny nad ydynt wedi eu diffinio yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yr ystyron a bennir yn yr Atodlenni hynny.

### Cwmpas

**4.** Mae Atodlen 5 yn nodi'r darpariaethau sy'n creu'r tramgwyddau y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy.

### Cyfuno sancsiynau

**5.**—(1) Ni chaiff rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad o fwriad ynglŷn â chosb ariannol benodedig os oes cosb ariannol newidiol wedi'i gosod neu os oes hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu hysbysiad stop wedi'i gyflwyno i'r person hwnnw ynglŷn â'r un weithred neu anwaith.

(2) Ni chaiff rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad o fwriad ynglŷn â chosb ariannol newidiol, hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad adfer, na chyflwyno hysbysiad stop, i unrhyw berson, mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith—

(a) os oes cosb ariannol benodedig wedi'i gosod ar y person hwnnw, neu

(b) os yw'r person hwnnw wedi cyflawni ei rwymedigaeth dros gosb ariannol benodedig ar ôl i hysbysiad o fwriad i osod y gosb honno gael ei gyflwyno.